# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 11fed o Fedi 2018 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**
Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd), Wyn Jones, Eiddwen Merritt, Jocelyn Andrew a Ruby Williams.
**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.
**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Wyn Evans, Garym Roberts, Barry Owen a Gerallt Davies.
**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.
**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Gorffennaf a'u cafwyd yn gywir.
**Codi o'r cofnodion:**
Penderfynwyd gofyn i dri o beintwyr lleol am ddifynbris i drwsio a pheintio'r arwydd sydd ynghanol Derwen Gam.
Mynychodd Cynghorwyr Wyn Jones a Barry Owen gyfarfod blynyddol Un Llais Cymru lle apwyntiwyd swyddogion newydd.
**Materion Cynllunio:**
**Rhif Cyf. A180721**.
Tir gyferbyn a Siop Lon, Neuaddwyd .
Codi tŷ fforddiadwy.
Dim gwrthwynebiad.
**Rhif Cyf. A180766.**
Yr Hen Siop, Derwen Gam.
Adnewyddu gwaith pren allanol ar ran blaen y tŷ, newid y drysau blaen am rai cyffelyb a chyfnewid y gwydr sengl i rai dwbwl tenau.
Dim gwrthwynebiad.

**Cyn gais ymgynghoriad**
Pentref gwyliau Gilfach yr Halen, Llwyncelyn.
Dymchwel 29 o hafotai gwyliau a newid defnydd tir i fod yn safle gwyliau i 29 o garafannau statig.
Dim gwrthwynebiad.

**Gwyro Llwybr Troed**
Ar dir Gilfach yr Halen.
Dim gwrthwynebiad.

**Ymgynghoriad Hybu'r Gymraeg**
Darllenwyd lythyr oddiwrth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi a hybu'r Gymraeg, gydag ymchwiliad i'r cyd-destun deddfwriaethol, polisi ac ehangach. Gwahoddwyd i aelodau'r pwyllgor ei ddarllen a danfon eu sylwadau.

**Ymgynghoriad Bridwyr Cŵn**
Darllenwyd lythyr eglurhaol roedd yn amlinellu'r broses ymgynghori roedden yn ymgymryd â.

**Trawsnewid Gwasanaeth Iechyd**
Derbyniwyd lythyr oddiwrth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn dilyn ei ymgynghoriad diweddar yn sôn fod yna adroddiad wedi dod i law. Ceir yr adroddiad hyn ar wefan:
www.bihyweldda.wales.nhsuk/trawsnewidhdd

**Unrhyw Fater Arall:**
Dywedodd y Cyng. Jocelyn Andrew fod yna arwyddion metel symudol wedi cael eu gadael ar ochr y ffyrdd ers tro, ger Pontbrenddu ac ar bwys y sied ar ffordd allan o Derwen Gam, gofynwyd i'r clerc i gysylltu a'r Adran Briffyrdd.
Paswyd fod Llwyncelyn yn mynd i gael hysbysfwrdd newydd a bydd yn cael ei roi ar wal allanol Gorsaf Betrol Dryslwyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 9fed o Hydref.